

**Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn
a ddaeth i ben ar
31 Mawrth 2012**

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ombwdsmon	3
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	14
Adroddiad Cyflogau a Thaliadau	15
Y Datganiad Llywodraethu	20
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	29
Crynodeb o'r Alldro Adnoddau	33
Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr	34
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	35
Datganiad o'r Llifau Arian	36
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr	37
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	38

CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2012

Adroddiad yr Ombwdsmon

Hanes a Chefnidir Statudol

Y rhain yw chweched Cyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a fy mhedwaredd set o gyfrifon blynyddol ers cychwyn yn fy swydd fel Ombwdsmon. Daeth y swydd i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006 yn dilyn gweithredu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Cefais fy mhenodi fel yr ail Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am gyfnod penodol o saith mlynedd o'r 21 Ebrill 2008 ymlaen. Yn unol â pharagraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 rwyf yn bersonol gyfrifol am drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol a staffio'r swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol ac eraill.

O ganlyniad i'r diwygiadau i'r Ddeddf o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyflog a chostau cyflogaeth cysylltiedig yr Ombwdsmon yn dâl a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru o'r 1 Ebrill 2007 ymlaen. Yn ogystal, rhaid cyflwyno'r gost o redeg y swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ystyriaeth erbyn 1 Tachwedd pob blwyddyn fan bellaf. Erbyn 22 Tachwedd, rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried a gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr amcangyfrif, gydag unrhyw addasiadau, y tybia'r Pwyllgor hwnnw, ar ôl ymgynghori ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir gennyf i, i fod yn briodol. Mae'r broses hon yn debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi'i dylunio i sicrhau annibyniaeth fy rôl.

Gosodwyd yr Adroddiad Amcangyfrifon am 2011-12 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Ionawr 2011. Roedd y dyddiad hwyr hwn oherwydd yr oedi gyda chylch y gyllideb am 2011-12 o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Yn unol â'r diwygiadau i Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

roedd gan y Pwyllgor Cyllid tan 21 Ionawr 2011 i adrodd ar a gosod yr amcangyfrif am 2011-12 ger ei fron.

Gosodwyd yr Adroddiad Amcangyfrifon am 2012-13 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Tachwedd 2011. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gofyniad cyllideb atodol am 2011-12 i lwfa ar gyfer yr ymrwymadau pensiwn a fydd yn codi ar ôl cau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan na fydd unrhyw aelod gweithredol o fy swyddfa'n cyfrannu at y cynllun mwyach. Cafodd y ddarpariaeth ychwanegol honno ei chynnwys yn y Gyllideb Atodol am 2011-12 a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2012. Nid oedd angen newid y gofyniad arian parod am 2011-12 o'r gyllideb a gymeradwywyd yn wreiddiol.

Nodau Strategol

Pwrpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol a diduedd i gwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch sut y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Rwyf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyrlon ac yn effeithlon. Os byddaf yn derbyn cwyn, byddaf yn argymhell unioni'r cam yn briodol. Rwyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Y weledigaeth ar gyfer y swydd yw:

Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn parhau i werthfawrogi a dysgu o gwynion.

Ein nodau strategol yw:

- (a) codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth fel bod pobl yn deall yr hyn a wnawn, a bod pawb sydd angen y gwasanaeth yn cael mynediad ato a'i ddefnyddio;

- (b) bod gennym brosesau trin cwynion o ansawdd uchel yn eu lle, sy'n ein galluogi i ystyried a phenderfynu cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, a chyfleu penderfyniadau'n glir;
- (c) gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru fel y darperir gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell o ganlyniad i'r gwersi a ddysgir o'r cwynion a ymchwiliwn iddynt; a
- (ch) dangos ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac effeithiol.

Ein Prif Weithgareddau

Prif weithgareddau'r Ombwdsmon fel a drafodir yn y cyfrifon hyn oedd:

- (a) ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch cyrrff y GIG, ymarferwyr gwasanaethau iechyd teuluol a darparwyr annibynnol Gwasanaethau'r GIG yng Nghymru;
- (c) ymchwilio i gwynion am Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru;
- (ch) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a
- (d) ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod.

Sylwebaeth gan y Tîm Rheoli

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ariennir y swydd drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian parod heb eu gwario i'r Gronfa honno ddim hwyrach na phedair wythnos ar ôl gosod copi ardystiedig o'r cyfrifon gerbron Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn creu mesur rheoli

pellach o ran bod angen rheoli'r gyllideb yn effeithiol ar sail arian parod ac adnoddau. Mae fy nghyflog i fy hun a'r costau cysylltiedig yn dâl a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y costau cyflogaeth o £2.4 miliwn yw'r eitem wariant fwyaf o hyd. Roedd y gost o gael cyngor proffesiynol (yn enwedig cyngor arbenigol ar achosion iechyd) yn £281k sy'n £31k yn llai nag yn 2010-11 ac sy'n adlewyrchu mesurau a gymerais i reoli'r gwariant hwn.

Cynyddodd ddiffyg y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o £410k i £690k gan adlewyrchu'r pwysau o fewn yr economi sydd ar gronfeydd pensiwn.

Darparodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru adnoddau o £3.73 miliwn i ariannu'r swydd er bod £91k o hwn i gael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru fel balansau arian parod heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r swm o £91k o fewn y maen prawf derbynol o 3% ar gyfer balansau diwedd blwyddyn. Mae'r swydd wedi wynebu lleihad yn ei gwariant yn ystod y flwyddyn yn unol â'r lleihad cyffredinol mewn cyllid i adlewyrchu'r gostyngiadau cyllid o fewn y bloc Cymreig sy'n arbennig o nodedig o ystyried y galw cynyddol am wasanaethau'r swydd.

Wrth adrodd y canlyniadau ar gyfer 2011-12, fy thema yw 'Gwella Mynediad: Cyflwyno Gwelliannau'. Mae hyn yn cydnabod y gwaith a wnaed i wella mynediad at weithdrefnau cwyno cyrff a ddaw o dan fy awdurdod, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, gwasanaethau ombwdsmon (gan gynnwys fy un i) a chynlluniau trin cwynion eraill. Gwnaed hyn drwy godi ymwybyddiaeth, hwyluso mynediad i bobl gyda nodweddion a warchodir a, thrwy wasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru rydym wedi darparu mwy o wybodaeth am sut y gall pobl gael gafael ar wasanaethau cynghori ac eiriolaeth i'w helpu i wneud eu cwynion.

Mae cyflwyno gwelliannau'n adlewyrchu ein gwaith o sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn well yng Nghymru, drwy sicrhau y cydymffurfir â'r argymhellion yn fy adroddiadau ar ymchwiliadau, gweithio gyda chyrrff rheoleiddio

i sicrhau bod y newidiadau a gyflwynir yn para ac yn effeithiol, a gweithio i rannu gwersi'r ymchwiliadau hynny gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Blwyddyn 2011-12 oedd blwyddyn olaf fy Nghynllun Strategol tair blynedd. Llwyddwyd i gyflawni llawer iawn yn erbyn y Cynllun hwnnw. Yn ogystal â chwrdd â'r amcanion a osodwyd, llwyddwyd i gyflawni pethau pwysig eraill na chawsant eu rhagweld pan gynhyrchwyd y cynllun i ddechrau. Nid lleiaf o'r rhain oedd creu gwasanaeth Cwynion Cymru. Mae'r gwasanaeth ffôn a gwe arloesol hwn yn rhoi cyngor i aelodau o'r cyhoedd sydd am gwyno am wasanaeth cyhoeddus ond ni wyddant sut i fynd o'i chwmpas hi. Rwyf yn arbennig o falch, cyn belled ag y mae'r gymuned ryngwladol o ombwdsmyrn yn y cwestiwn, ein bod ni yng Nghymru yn ymddangos i fod yn arwain y byd drwy gynnig gwasanaeth o'r fath ac mae sawl un arall bellach yn meddwl ein hefelychu.

O ran ein gweithgareddau craidd, mae'r cwynion a dderbyniaf am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu, ac yn 13% i fyny ar y nifer yn 2010-11. Ar 1 Ebrill 2011 cyflwynwyd y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, ac er y gallai hwn gyfrif am beth o'r cynnydd, dim ond un ffactor ydyw. Mae'n peri gofid bod cwynion cod ymddygiad wedi codi o 49%.

Dros y tair blynedd diwethaf cymerwyd camau breision o ran bod yn fwy effeithlon yn y modd yr ystyriwn gwynion. Yn benodol, rwyf yn falch er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ymholiadau a'r cwynion a ddaw i law, ein bod dal wedi llwyddo i ragori ar ein targedau perfformiad. Rydym wedi uwchraddio ein system trin cwynion gyda golwg ar gael technoleg newydd i ysgafnu rhywfaint ar straen y tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thrin cwynion. Mae cyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi eu gosod allan mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad blynyddol statudol am 2011-12. Rhoddir mwy o wybodaeth ar y wefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Gwnaed gwaith yn ystod y flwyddyn hefyd i gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd hyn yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Hefyd o dan y dyletswyddau penodol, mae'n ofynnol imi gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Penderfynais mai'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny oedd o fewn fy Adroddiad Blynyddol. Yn unol â hynny, dangosir gweithgareddau fy swydd yng nghyswllt materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Adran 8 yn fy Adroddiad Blynyddol 2011-12. Yn ogystal, mae'r swyddfa wedi gwneud trefniadau i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Llwgrwobrwyo a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

Yn ystod y flwyddyn rwyf hefyd wedi adolygu trefniadau llywodraethu fy swydd. Penderfynais y byddai'r swydd yn gallu dangos tryloywder a pha mor agored ydoedd drwy greu Panel Cynghori. Dechreuwyd ar broses recriwtio agored ar ddiwedd y flwyddyn, gyda golwg ar benodi aelodau ar ddechrau 2012-13.

Wrth drafod llywodraethu, byddai'n esgeulus ohonof i beidio â mynegi fy ngwerthfawrogiad yma o'r gwaith a wnaed gan Mr Laurie Pavelin fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Daeth ei chwe blynedd yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2012. Rwyf wedi gwirioneddol werthfawrogi ei gyngor doeth a'i gymorth ers fy mhenodi'n Ombwdsmon a diolchaf iddo am hynny. Rhoddir mwy o fanylion ar waith y Pwyllgor Archwilio yn Yr Adroddiad Llywodraethu sy'n ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

I gloi, hoffwn hefyd ddiolch i fy staff. Mae gan bob unigolyn o fewn y swyddfa rôl bwysig i'w chwarae yn ein llwyddiant. Mae'r flwyddyn wedi bod yn un arloesol o ran cyflwyno gwasanaeth newydd, dulliau gwell o gyfathrebu a datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, mae wedi bod yr un mor nodedig oherwydd y gwaith caled parhaus a olygodd ein bod wedi gallu cadw ar ben llwyth gwaith cynyddol – yn hyn o beth, gyda'r cyfyngiadau ariannol ar

wasanaethau cyhoeddus, ni allaf weld troi ar y duedd. Nid wyf yn diystyru'r sialensau sydd o'n blaenau.

Cyflogau a Thaliadau

Rhoddir manylion ynghylch cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau.

Ymrwymadau Pensiwn

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff presennol a blaenorol yn cael eu talu drwy:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS);
- (b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a
- (c) y pensiynau a delir yn uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Rhoddir mwy o fanylion yn Nodyn 3 ar y Datganiadau Ariannol.

Polisi Cyflogaeth

Mae'r Ombwdsmon yn recriwtio ar yr egwyddor o ddewis ar sail haeddiant drwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymrwymedig i gynnig cyfle cyfartal i'w staff i gyd. Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 pan ddaw i rym yn ogystal â chwrrdd ag unrhyw ofynion statudol eraill.

Salwch

Yn ystod y flwyddyn collwyd 4.6 diwrnod am bob gweithiwr ar gyfartaledd (2010-11 7.7 diwrnod). Mae hyn yn cyfateb i 1.8% (3.1% yn 2010-11) o'r holl

ddiwrnodau gwaith ac yn lleihad sylweddol yn nifer y dyddiau a gollwyd. Oherwydd bod y swyddfa'n fach, ni ddatgelir manylion y mathau o salwch, oherwydd byddai'n bosibl adnabod unigolion o'r wybodaeth a adroddir.

Talu Cyflenwyr

Mae'r Ombwdsmon yn ymrwymedig i gydymffurfio â Rheoliadau Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 2002. Y polisi ar dalu yw talu biliau'n unol ag amodau cytundebol neu, lle nad oes amodau o'r fath yn bodoli, o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau a'r gwasanaethau neu dderbyn anfoneb ddilys, pa un bynnag sydd ddiweddarach. Yn 2011-12 talwyd 98.4% (2010-11 98.7%) o anfonebau yn unol â'r polisi hwn. Y cyfnod cyfartalog cyn talu anfonebau oedd 8 diwrnod gwaith o'i gymharu â 13 diwrnod yn 2010-11.

Cynaliadwyedd

Mae'r Ombwdsmon yn ymrwymedig i arferion amgylcheddol da. Dyma rai enghreifftiau o sut mae'n ymarfer stiwardiaeth amgylcheddol dda.

- (a) **Defnyddio ynni** Fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfa modern bychan, nid yw'n bosibl cael rheolaeth lwyr dros wresogi a goleuadau. Fodd bynnag mae yma gyfnewidyddion gwres eithriadol effeithlon a reolir yn thermostatig ac yn ôl amser.
- (b) **Defnyddio cerbydau** Nid yw'r swyddfa'n rhedeg unrhyw gerbydau ond mae angen i'r staff ddefnyddio cerbydau ar log ar gyfer siwrneiau hirach i fod mor effeithlon â phosibl.
- (c) **Trafnidiaeth gyhoeddus** Lle bynnag y bo hynny'n briodol anogir staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
- (ch) **Rheoli papur** Anogir staff i asesu a oes angen gwneud copi papur ac i argraffu ar y ddwy ochr i dudalen lle bynnag y bo hynny'n

bosibl. Mae defnyddio mewnrwyd y swyddfa'n golygu y gellir cael gafael ar wybodaeth heb fod angen systemau dosbarthu papur.

- (d) **Gwared gwastraff** Mae trefniadau yn eu lle i ailgylchu gwyr, caniau metel, poteli plastig, batris a phapur. Gwaredir papur drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y rheidrwydd i gynnal cyfrinachedd yn y ddeddfwriaeth alluogi.

Llywodraethu Corfforaethol

Yn swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf yn gweithredu fel Corfforaeth Undyn. Mae'r Trysorlys hefyd wedi fy mhenodi fel y Swyddog Cyfrifyddu dros yr arian cyhoeddus gyda'r hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy rôl. Rhoddir manylion pellach yn y Datganiad Llywodraethu.

Cyfarwyddyd Cyfrifon

O dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys dyddiedig 21 Rhagfyr 2006 roedd yn ofynnol imi baratoi cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r rhifyn o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM a oedd mewn grym am 2011-12.

Paratowyd y cyfrifon er mwyn:

- (a) rhoi darlun gwir a theg o'r busnes ar 31 Mawrth 2012 ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd ar yr amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a
- (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol a wariwyd ar bwrpasau sy'n wahanol i'r rhai sy'n ddisgwyliedig gan Gynulliad

Cenedlaethol Cymru neu drafodion perthnasol nad oedd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) fel y nodir ym mharagraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Yn dilyn ymgynghori gyda'r swyddfa hon, penododd Swyddfa Archwilio Cymru Grant Thornton UK LLP i gyflawni'r gwaith ar eu rhan er mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n aros yn gyffredinol gyfrifol. Cost yr archwiliad am 2011-12 oedd £19.1k. Yn 2010-11, y gost am y flwyddyn oedd £19.2k ond achoswyd £5k arall am waith ychwanegol gyda dirwyn archwiliad 2009-10 i ben ynghyd â thaliad terfynol o £1k am waith archwilio'n gysylltiedig â symud i IFRS gan roi cyfanswm cost o £25.2k.

Hyd y gwn i rwyf wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i wneud yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn gwybod am y wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb lefel gwasanaeth ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru i roi cyngor ynghylch adnoddau dynol. Yn 2011-12 talwyd llai na £1k (2010-11 £1k) i Swyddfa Archwilio Cymru o dan y cytundeb hwnnw.

Y Dyfodol

Dros y flwyddyn i ddod byddaf yn edrych i weld beth yn fwy y gallwn ei wneud i fod yn fwy effeithlon yn enwedig oherwydd na fydd cynnydd yn yr adnoddau arian parod arferol. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod pen draw ar y manteision sydd i'w hennill o wella cynhyrchedd a symleiddio ein ffyrdd o weithio cyn i gadernid ac ansawdd y gwaith gael eu rhoi yn y fantol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chymorth yr holl staff, rwyf hefyd wedi cynhyrchu fy Nghynllun Strategol am y tair blynedd nesaf. Byddwn yn gweithio tuag at weledigaeth fymryn yn fwy diwygiedig ar gyfer y gwasanaeth dros y cyfnod hwn, sef:

Cywiro pethau i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ac ysgogi gwelliannau yn y gwasanaethau hynny ac o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus drwy ddysgu o'r cwynion a ddaw i law.

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

31 Gorffennaf 2012

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol imi baratoi cyfrifon adnoddau'n manylu ar yr adnoddau y bu inni eu caffael, eu dal a'u gwaredu yn ystod y flwyddyn ac ar y defnydd a wnaed o adnoddau gan y swyddfa yn ystod y flwyddyn ar ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a chywir o fusnes Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro adnoddau net, adnoddau a wariwyd ar amcanion, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon ac fel y Swyddog Cyfrifyddu rhaid imi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn enwedig:

- talu sylw i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- nodi a ydyw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw;

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu'n cynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r swyddfa fel y nodir ym memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Drysorlys EM yn "Managing Public Money", ac sy'n unol â Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Adroddiad Cyflogau a Thaliadau

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod fy nghyflog, y costau yswiriant gwladol cysylltiedig a chost fy mhensiwn yn cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, caf fy nhalu ar raddfa sy'n cyfateb i Grŵp 5 ar y Raddfa Cyflogau Barnwrol. Cynhwysir y costau hyn o dan Gostau Gweinyddol Eraill fel Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol yn Nodyn 4. Pennir tâl y Cyfarwyddwr ar 70% o fy nghyflog i, mewn grym o'r 1 Tachwedd 2008.

Cyflogau a Thaliadau

* Mae'r tabl isod yn nodi manylion cyflogau aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn 2011-12:

Enw	Dyddiad penodi a thelerau cytundebol	Cyflog 2011-12	Buddion mewn nwyddau 2011-12	Cyflog 2010-11	Buddion mewn nwyddau 2010-11
		£000	£	£000	£
Peter Tyndall	21/04/2008. Tymor penodol tan 20 Ebrill 2015	135-140	Dim	135-140	Dim
Elizabeth Thomas	01/01/2004 Contract Parhaol	95-100	Dim	95-100	Dim

	2011-12 Tâl Perfformiad Ar Wahân £000	2010-11 Tâl Perfformiad Ar Wahân £000
Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf (£'000)	£135-£140	£135-£140
Cyfanswm Tâl Cyfartalog	£38961	£38961
Cymhareb	3.6	3.6

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog crynswth; goramser ac unrhyw lwfansau eraill sy'n agored i'w trethu yn y DU.

Buddion mewn Nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw wariant a achoswyd ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Nid oedd gwariant o'r fath.

Bonysau

Ni thalwyd unrhyw fonws yn ystod y flwyddyn imi nac i'r un o'r staff yn fy swyddfa oherwydd nad oes cynllun bonws yn bodoli.

Pwyllgor Archwilio

* Yn ystod y flwyddyn derbyniodd Mr Pavelin fel cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio dâl di-bensiwn o £1700 (2010-11 £2975) ar sail cyfradd ddyddiol. Talwyd £1375 i'r Athro Margaret Griffiths (2010-11 £1250) am ei gwaith fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio, eto'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol ddi-bensiwn.

Dyfarniadau Cyflog

Mae cyflog y Cyfarwyddwr wedi'i gysylltu i gyflog yr Ombwdsmon sydd yn ei droi'n seiliedig ar raddfeydd cyflogau barnwrol. Nid oedd cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae gweddill cyflogau'r swyddfa wedi eu cysylltu i'r dyfarniadau cyflog a wneir i staff Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r weithdrefn honno, ni ddyfarnwyd unrhyw godiad cyflog yn 2011-12.

Ymgynghori gyda Staff

Mae gennym broses o ymgynghori gyda staff gan gynnwys yr undebau llafur cydnabyddedig.

Pensiynau

* Dangosir isod yr hawliau pensiwn ar gyfer y bobl a nodir uchod:

Enw	Pensiwn cronnus yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn blynyddol	CETV ar 31 Mawrth 2012	CETV ar 31 Mawrth 2011	Gwir gynnydd mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Peter Tyndall	66	1	867	806	(9)
Elizabeth Thomas	49	1	917	835	10

Yn 2011-12 newidiwyd y ffactorau actiwaraid a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd CETV. Mae'r gwerthoedd CETV ar 31 Mawrth 2011 a'r 31 Mawrth 2012 wedi eu cyfrifo'n defnyddio'r ffactorau newydd, er mwyn cysondeb. Felly mae'r CETV ar 31 Mawrth 2011 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliau llawn. Rhoddir gwybodaeth ategol yn y Nodiadau isod.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir y buddion pensiwn hyn drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rhoddir mwy o wybodaeth yn Nodyn 3 ar y cyfrifon.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yn golygu gwerth cyfalaf, wedi'i asesu gan actiwari, y buddion yn y cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar unrhyw adeg. Mae'r buddion a asesir yn cyfateb i fuddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i bartner sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw CETV, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn capasiti uwch yn unig, lle mae datgelu'n berthnasol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar gost iddo'i hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) o dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 fel y rhagnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid yw'r rhain yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan godir y buddion pensiwn.

Gwir Gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn pensiwn cronus sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronwyd oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau marchnad arferol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

*Eitemau'n destun archwiliad

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

31 Gorffennaf 2012

Y Datganiad Llywodraethu

Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodir yn Atodlen 1 paragraff 2 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Undyn sy'n dal swydd o dan Ei Mawrhydi ac yn cyflawni ei rôl ar ran y Goron. Mae Atodlen 1 paragraff 18 yn nodi mai'r Ombwdsmon yw'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa'r Ombwdsmon.

Sgôp y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni rôl y swyddog cyfrifyddu rwyf yn sicrhau bod y swyddfa'n rhedeg yn effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Hefyd, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac i ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd imi yn "Managing Public Money".

Rwyf yn annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ddefnyddio'r adnoddau a gaf tuag at gyflawni fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu faint o adnoddau sydd i'w rhoi i'r sefydliad, mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried cynigion y gyllideb yn unol â'r broses a ddisgrifir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Y System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i dyfeisio i reoli risg ar lefel resymol yn lle dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, gall ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol

yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni fy mholisiau, nodau ac amcanion, i farnu pa mor debygol y mae'r risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith pe baent yn digwydd, tra'n eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn ei lle ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n unol â chanllawiau gan y Trysorlys.

Y Pwyllgor Archwilio

Er mwyn fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu, rwyf wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio. Fel rhan o'i weithgareddau, mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i gyflawniadau a'i effeithiolrwydd.

Aelodaeth a Chylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i gadeirio gan Laurie Pavelin CBE FCA a bu'n gymorth mawr iawn gyda'i brofiad helaeth o gyfrifyddu a rheolaeth ariannol yn y sector cyhoeddus. Cryfhawyd annibyniaeth y Pwyllgor gan bresenoldeb yr Athro Margaret Griffiths sydd, fel cyn Bennaeth Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Morgannwg, ag arbenigedd cyfreithiol eang yng nghyswllt Cymru. Rwyf innau'n aelod o'r Pwyllgor yn fy nghapasiti fel Swyddog Cyfrifyddu.

O gofio y byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn wynebu sialensau ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2011-2012 ac y byddai hefyd archwilwyr mewnol newydd, gwahoddwyd Mr Pavelin i barhau yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn arall yn lle gorffen ar 31 Mawrth 2011 pan fyddai ei contract presennol yn dod i ben. Derbyniodd y gwahoddiad hwn. Ar ôl cwblhau blwyddyn arall, daeth penodiad y Cadeirydd i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae gweddill aelodau'r Pwyllgor am ddiolch i Mr Pavelin am y gwaith aruthrol a wnaeth dros y chwe blynedd y bu yn y swydd.

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr Athro Griffiths gynhadledd undydd a drefnwyd gan yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ar "Gwella Effeithiolrwydd eich Pwyllgor Archwilio". Roedd y drafodaeth ar faterion Llywodraethu Corfforaethol yn arbennig o ddefnyddiol.

Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn llenwi ffurflen datgan budd flynyddol ac mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod yn gwahodd aelodau i ddatgan budd ynghylch unrhyw eitem ar agenda'r cyfarfod hwnnw. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir i lunio'r Gofrestr Buddiannau sydd ar gael i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd drwy wneud cais.

Yn ystod y flwyddyn adolygwyd y trefniadau llywodraethu corfforaethol a chynigiwyd cylch gorchwyl diwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2012-13. Bydd angen i'r cylch gorchwyl hwn gael ei gadarnhau gan y Panel Cynghori unwaith y bydd yn ei le.

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair o weithiau yn ystod y flwyddyn. Ym mhob cyfarfod derbyniodd y Pwyllgor nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda. Roedd un yn ymwneud â'r Gofrestr Risg. Adolygir y gofrestr lawn pan ystyrir y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol; ar gyfer y cyfarfodydd eraill mae'n ystyried y risgiau uchel a chanolig sy'n wynebu'r swyddfa. Tybiwyd fod hyn yn briodol yn dilyn newid fformat y Gofrestr Risg drwy ddefnyddio codau lliw ar gyfer y gofrestr. Roedd y prif risgiau a gafwyd eu monitro yn ystod y flwyddyn yn cynnwys diogelu enw da'r swydd; y posibilrwydd na fyddai gennym ddigon o adnoddau yn yr hinsawdd economaidd bresennol; a bod angen cadw annibyniaeth y swydd. Er bod lefel gyffredinol y risg sy'n wynebu'r sefydliad yn isel o hyd, mae'r duedd yn un o gynnydd. Yn ystod y flwyddyn roedd materion a ystyriwyd yn cynnwys mwy o risg yn gysylltiedig â phwysau costau, gan gynnwys mwy o gwynion yn

gysylltiedig â phwysau costau a'r rhwymedigaethau cynyddol o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ynghyd â gweithredu newidiadau caledwedd a meddalwedd i'r system gwynion gyfrifiadurol.

Rhaid i adroddiadau sefydlog eraill sydd i'w cyflwyno i'r Pwyllgor nodi a gafodd unrhyw dwyll neu golledion, gan gynnwys colledion data, eu nodi. Ni hysbyswyd yr un o'r pethau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12. Yn ogystal, hysbysir y Pwyllgor ynghylch unrhyw dendr neu wariant cymeradwy gan gyflenwyr enwebedig sydd dros £5,000 ac ynghylch gwaredu neu sgrapio unrhyw asedau.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar unrhyw faterion priodol a ddaeth o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys papurau ar: y Cynlluniau Strategol a Gweithredol, trefniadau pensiwn; ymrwymïadau posibl i adrodd ar gynaliadwyedd; diweddariad ar y cynllun parhad busnes; a materion llywodraethu corfforaethol perthnasol a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Archwiliad Mewnol ac Allanol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Roedd gwaith Deloitte, ar ôl eu penodi'n Archwilwyr Mewnol o'r 1 Ebrill 2011 ymlaen, wedi'i gynllunio ar sail eu hasesiad o anghenion cyffredinol ac wedi'i wneud drwy eu rhaglen flynyddol gyntaf. Mae eu hadroddiad yn tynnu sylw at y fframwaith boddhaol o reolaeth fewnol sydd gan y sefydliad, gan wneud argymhellion ar gyfer gwella lle bo angen. Dyma a ddywedodd eu Hadroddiad Blynyddol: "Cafwyd sicrwydd sylweddol gyda'r holl archwiliadau mewnol a gyflawnwyd".

Rhaid i rôl yr archwiliad allanol, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, gael ei chyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflawnwyd y gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn, gyda chytundeb yr Ombwdsmao, gan Grant Thornton UK LLP ar ran Swyddfa Archwilio

Cymru. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cyfrifon Blynyddol gan gynnwys Datganiad Rheolaeth Fewnol y swyddfa am 2010-11 ynghyd â'r Adroddiad Archwiliad Mewnol ISA260.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os tybir bod hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater at sylw'r Pwyllgor. Drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, sicrhodd y Pwyllgor eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd.

Prosesau Monitro

Hysbysir y Pwyllgor ym mhob cyfarfod o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar weithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol a hefyd ar y cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Strategol a Gweithredol. Yn ogystal, hysbysir y Pwyllgor ym mhob cyfarfod o unrhyw faterion sydd dal heb dderbyn sylw.

Rhodddwyd copi o Adroddiad Blynyddol 2010-11 i'r Pwyllgor.

Adolygu'r Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Bu'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried cynigion i ddiwygio'r trefniadau llywodraethu corfforaethol. Roedd hyn yn arbennig o amserol o ran bod tymor Mr Pavelin fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnig sefydlu Bwrdd Cynghori (Panel Cynghori oedd yr enw blaenorol arno), gyda'r Pwyllgor Archwilio'n is-bwyllgor i'r Panel. Bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu a dechreuwyd ar broses o recriwtio aelodau annibynnol (bydd gan un rôl ddeuol fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) ym mis Mawrth 2012.

Asesiad Cyffredinol y Pwyllgor Archwilio

Cyflawnir yr adolygiad blynyddol hwn i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio'n parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Ymarfer Da a nodir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd i helpu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn effeithiol i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn enwedig ei gefnogi i baratoi'r Datganiad Llywodraethu.

Adrodd Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau ar adrodd unrhyw golled, datgeliad diawdurdod ac unrhyw achos lle caiff data personol gwarchodedig ei waredu. Mae'n ofynnol adrodd ar y canlyn:

- manylion unrhyw ddigwyddiadau data personol a adroddwyd yn flaenorol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dros y flwyddyn ariannol;
- digwyddiadau data personol gwarchodedig a gofnodwyd na chawsant eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dros y flwyddyn ariannol; a
- unrhyw ddigwyddiadau data personol gwarchodedig yn y blynyddoedd ariannol blaenorol.

Medraf adrodd na wn i am unrhyw ddigwyddiad oedd angen ei adrodd am 2011-12. Gellir darparu polisi'r sefydliad ar ddiogelwch gwybodaeth drwy wneud cais naill ai drwy lythyr neu e-bost at ask@ombudsman-wales.org.uk.

Y Fframwaith Risg a Rheoli

Fel sy'n ofynnol yn "Managing Public Money", cefnogir fi gan y Cynghorwr Ariannol sydd fel cyfrifydd cymwysedig yn cyflawni cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid proffesiynol fel y nodir yn y ddogfen honno.

Rwyf yn parhau i wella'r trefniadau rheolaeth fewnol trylwyr i sicrhau bod gan y swyddfa'r capasiti i nodi, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, cefais fy nghefnogi gan gyfarwyddwr yr wyf wedi dirprwyo rhai o fy nghyfrifoldebau iddo. Yn ogystal, mae'r Tîm Rheoli yr wyf yn gadeirydd arno'n gyfrifol am oruchwylio rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y systemau sydd yn eu lle'n nodi unrhyw risg bosibl yn ddigon buan fel y gellir cymryd y camau priodol, drwy reolaeth weithredol, i leihau unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa. Fel y soniwyd yn barod, mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar Gofrestr Risg y swydd.

Y Broses Gyllidebu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle gennyf i reoli'n dynn yr holl arian cyhoeddus sy'n cael ei ymddiried ynof. Yn benodol, mae'r Tîm Rheoli'n derbyn adroddiad monitro cyllideb misol yn nodi manylion yr holl wariant gwirioneddol yn erbyn y gwariant a gynlluniwyd. Mae unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried a chytunir ar gamau i sicrhau bod y swyddfa'n aros o fewn ei gwariant fel a gynlluniwyd. Ni chododd unrhyw faterion mawr o ran fy nghyllideb yn 2011-12. Cyn belled ag y bo'r broses o gynhyrchu fy amcangyfrifon ariannol am 2012-13 yn y cwestiwn, bu'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried papur yn nodi'r meini prawf cyllideb cychwynnol ar 6 Gorffennaf 2011. Yn dilyn ymlaen o hyn, ystyriwyd papur amcangyfrifon cyllideb drafft yn y cyfarfod ar 21 Medi 2011. Roedd y papur hwnnw'n gosod allan yn llawn yr adnoddau ariannol y credais oedd eu hangen arnaf i gyflawni fy

nyletswyddau. Yna cyflwynais fy mhapur amcangyfrifon ariannol terfynol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried fy mhapur ar 6 Hydref 2011 ac roeddwn yn falch o fedru mynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau mwy penodol gan Aelodau'r Cynulliad ar fy mhapur. Yna cymeradwyodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru fy amcangyfrifon ariannol am 2012-13.

Monitro Perfformiad a Chynllunio Strategol

Mae fy nghylch cynllunio'n golygu datblygu Cynllun Strategol pob tair blynedd a chynllun gweithredol / busnes blyneddol. Daeth y Cynllun Strategol presennol i ben ar 31 Mawrth 2012. Er bod timau unigol yn y swyddfa'n gyfrifol am weithredu'r camau penodol, mae'r Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio'n monitro cynnydd a wneir yn erbyn targedau a chyflawni canlyniadau drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol. Roeddwn yn falch iawn bod yr holl weithgareddau allweddol wedi eu cyflawni erbyn diwedd y tair blynedd, ynghyd â gweithgareddau ychwanegol (fel cwyno gwasanaeth cyfeirio newydd Cwynion Cymru) nad oedd wedi'i ragweld wrth baratoi'r Cynllun Strategol yn wreiddiol bedair blynedd yn ôl.

Gyda diwedd y Cynllun Strategol presennol ar y gorwel, datblygwyd Cynllun Strategol tair blynedd newydd yn 2011-12 i fynd â'r swydd ymlaen i'r flwyddyn 2014-15. Datblygwyd y Cynllun newydd gyda chyfraniad yr holl staff drwy seminarau / gweithdai a gynhaliwyd yn fewnol. Yna datblygwyd Cynllun Busnes ar gyfer 2012-13 i lifo o hwn. Mae fy nghynllunio wedi ystyried y llwyth gwaith trymach sy'n wynebu'r swyddfa o ganlyniad i weithredu Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, gwasanaeth Cwynion Cymru, a hefyd y duedd gynyddol barhaus o ran nifer y cwynion a dderbyniaf. Rwyf hefyd wedi ystyried bod angen paratoi ar gyfer effaith y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) presennol, os deddfir y cynigion i ehangu awdurdod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Casgliad

Medraf adrodd nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn system rheolaeth fewnol y swyddfa yn 2011-12 a effeithiodd ar gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y swyddfa a bod gennym drefniadau Llywodraethu Corfforaethol cadarn.

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

31 Gorffennaf 2012

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 o dan baragraff 17 (2) o atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005). Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiadau Llifau Arian, y Datganiadau o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Achwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodiau ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad taliadau i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanathau Cyhoeddus Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanathau Cyhoeddus Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad yr Ombwdsmon ac yn y rhan na chaiff ei harchwilio o'r Adraddiad Taliadau er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2012 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

(Cymru) (2005).

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar Faterion Eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005);
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon a'r rhan heb ei archwilio o'r Adroddiad Taliadau a gynhwysir yn yr datganiad cyfrifon yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y Cyflwynaf Adroddiad Arnynt drwy Eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a sicrhau hygredded gwefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu rhoi ar y wefan i ddechrau.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

13 Awst 2012

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Datganiadau Ariannol 2011-12

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

	Amcangyfrif Diwygiedig			Alldro			Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif o'r arbediad / (arian dros ben)	2010-11
	Gwariant Crynswth	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Crynswth	Incwm	Cyfanswm Net		Cyfanswm Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000		£000
Costau Gweinyddol	3845	(6)	3839	3737	-	3737		3871
Llai Gwasanaethau a rennir gyda Chronfa Gyfunol Cymru				188		188		187
Cyfanswm Adnoddau	5410	(6)	5404	3549	-	3549	290	3684
Gofyniad Arian Parod Net Nodyn 2	3731					3640	91	4105

Incwm anweithredol a derbyniadwyon heb eu dosbarthu fel incwm gweithredol

	Amcangyfrif Diwygiedig			Alldro			Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif o'r arbediad / (arian dros ben)	2010-11
	Gwariant Crynswth	Incwm	Cyfanswm Net	Gwariant Crynswth	Incwm	Cyfanswm Net		Cyfanswm Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000		£000
Gwerthu asedau sefydlog	-	-	-	-	-	-	-	-

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 63 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Datganiadau Ariannol 2011-12

Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2011-12	2010-11
		£000	£000
Costau Gweinyddol			
Costau staff	3	2367	2385
Costau gweinyddol eraill (nid staff)	4	1370	1523
Costau Gweinyddol Crynswth		3737	3908
Incwm gweithredol	5	-	(37)
Costau Gweinyddol Net		3737	3871
COSTAU GWEITHREDOL NET ac ALLDRO ADNODDAU NET		3737	3871

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuodd o fewn y cyfnod yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 63 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Datganiadau Ariannol 2011-12

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2011-12		2010-11	
		£000	£000	£000	£000
Asedau Anghyfredol					
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	7	194		266	
Asedau Anniriaethol	8	225		262	
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	9	6		52	
Cyfanswm yr Asedau Anghyfredol			425		580
Asedau Cyfredol					
Derbyniadwyon masnachol ac eraill	9	197		147	
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	10	91		-	
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol			288		147
Cyfanswm Asedau			713		727
Rhwymedigaethau Cyfredol					
Taladwyon masnachol ac eraill	11	(198)		(101)	
Darpariaethau	12	(78)		(73)	
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol			(276)		(174)
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol					
Taladwyon masnachol ac eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	11	(25)		(25)	
Darpariaethau	12	(437)		(434)	
			(462)		(459)
			(25)		94
(Diffyg) / Gwarged yn y Gronfa Bensiwn	3		(690)		(410)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau			(715)		(316)
Ecwiti Trethdalwyr Y Gronfa Gyffredinol			(715)		(316)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 63 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

31 Gorffennaf 2012

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Datganiadau Ariannol 2011-12

Datganiad o'r Llifau Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2011-12	2010-11
		£000	£000
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol	13	(3536)	(3644)
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	14	(13)	(461)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	15	3731	4100
Cynnydd (Ileihad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod cyn addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		182	(5)
Taliadau yng nghyswllt symiau sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru		(91)	(-)
Cynnydd (Ileihad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		91	(5)
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		-	5
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		91	-

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 63 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Datganiadau Ariannol 2011-12

Datganiad o'r Newidiadau Mewn Ecwiti Trethdalwyr

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

	2011 -12	2010 -11
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2011	(316)	(1132)
Newidiadau mewn ecwiti Trethdalwyr		
Costau gweithredol net	(3737)	(3871)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	3731	4100
I'w dalu'n ôl i Gronfa Gyfunol Cymru		
-Arian parod	(91)	-
-Incwm anweithredol	-	-
Gwasanaethau a rennir gyda Chronfa Gyfunol Cymru	188	187
Gwarged / (diffyg) actiwaraid	(490)	400
Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig am y flwyddyn	(399)	816
Balans ar 31 Mawrth 2012	(715)	(316)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 63 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Datganiadau Ariannol 2011-12

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

1. Datganiad o'r Polisiâu Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym am 2011-12. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Rhyngwladol ar Adroddiadau Ariannol (IFRS) fel y mabwysiedir neu y dehonglir hwynt ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir isod y polisiâu cyfrifyddu penodol sydd wedi eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd hwynt i fod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.

1.1 Y Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried unrhyw asedau sefydlog a ail-brisiwyd, lle maent yn bwysig i'w gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr eitemau a brynir fod yn fwy na blwyddyn a lle maent yn costio mwy na £1k. Gellir cyfalafu asedau a gostiodd llai na £1k ar yr amod eu bod yn gyfalaf eu natur ac yn rhan o gynllun mwy a gostiodd dros £1k i gyd. Dangosir asedau ar gost, llai lwfa ar gyfer dibrisio. Wrth eu cydnabod gyntaf, caiff asedau sefydlog eu mesur ar gost, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod

â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gafaelwyd yn flaenorol, a'r prisiau a dalwyd am eitemau newydd a gafaelwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net yr asedau a chost eu hadnewyddu, llai eu dibrisiad.

1.3 **Dibrisiad**

Dibrisir asedau ar gyfraddau a gyfrifir i'w lleihau i sero neu, lle bo hynny'n berthnasol, i'w gwerth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar ôl codi tâl cychwynnol o ddibrisiad blwyddyn gyfan ym mlwyddyn eu prynu. Dibrisir asedau yn ystod y gwaith adeiladu o'r flwyddyn y daeth yr ased i gael ei ddefnyddio gyntaf. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, tybir bod oes neu fywydau asedau fel a ganlyn:

Peiriannau	10 mlynedd neu dymor y brydles lle bo hynny'n llai.
Dodrefn a ffitiadau eraill	10 mlynedd neu, yn achos ffitiadau, tymor y brydles lle bo hynny'n llai.
Cyfrifiaduron a chyfarpar eraill	Rhwng 3 a 10 oed.

1.4 **Asedau anniriaethol**

Caiff trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron a brynwyd a meddalwedd a ddatblygwyd eu cyfalafu lle achosir gwariant o £1k neu fwy ac mae'r oes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gellir cyfalafu asedau anniriaethol a gostiodd lai na £1k ar yr amod eu bod yn gyfalaf eu natur ac yn rhan o gynllun mwy sy'n costio dros £1k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol am unrhyw nam, a'u datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros dymor y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol y cyfrifiadur y mae'r meddalwedd arno, pa un bynnag sydd fyrraf. Byddai hyn fel arfer rhwng 3

a 5 mlynedd. Caiff meddalwedd a ddatblygwyd ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol dybiedig. Ym mlwyddyn y caffael, codir tâl amorteiddio blwyddyn lawn ac mae'r balans yn cael ei amorteiddio ar sail llinell syth dros weddill yr oes dybiedig.

1.5 **Treth ar Werth (TAW)**

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir yr holl wariant yn grynsyth o Dreth ar Werth.

1.6 **Pensiynau**

Llywodraethir yr ymrwymadau pensiwn i gyn-weithwyr a staff presennol o dan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf anghyfrannol a heb ei ariannu, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau gyn Gomisiynydd Gweinyddiaeth Leol Cymru ac un buddiolwr sy'n dal i fod yn fyw. Rhoddir mwy o fanylion yn y Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol. Mae'r gost o ddarparu'r pensiynau hyn ar ffurf tâl a godir drwy'r Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr.

1.7 **Costau Gadael yn Fuan**

Lle mae angen i'r Ombwdsmon gwrdd â chost ychwanegol buddion sy'n fwy na'r buddion arferol sy'n daladwy o dan y cynllun pensiwn perthnasol i weithwyr sy'n ymddeol yn fuan, caiff y costau hyn eu codi ar y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr yn llawn pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

1.8 **Prydlesi Gweithredol**

Caiff gwariant ar eiddo a brydlesir ei wario dros y cyfnod sy'n berthnasol iddo. Caiff taliadau prydlesi gweithredol am gyfarpar eu gwasgaru'n gyfartal dros oes y brydles.

1.9 **Costau Staff**

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion staff tymor byr fel cyflogau wythnosol a misol a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, taliadau gwyliau blyneddol a salwch, yn ogystal â buddion heb fod yn ariannol i staff presennol, eu cydnabod pan fydd gweithiwr wedi darparu gwasanaethau yn gyfnewid am y buddion hynny.

1.10 **Incwm Gweithredol**

Cyfrifir am log banc ym mlwyddyn ei dderbyn. Caiff incwm arall ei gredu i'r flwyddyn gyfrifo pan wnaed y gwaith.

1.11 **Incwm Anweithredol**

Mae incwm anweithredol sy'n rhaid ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru'n codi o werthu asedau sefydlog.

1.12 **Grantiau gan y Llywodraeth**

Cyfrifir am grantiau gan y llywodraeth ym mlwyddyn eu derbyn.

1.13 **Cyfnewid Arian Tramor**

Mae trafodion incwm a gwariant mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

1.14 **Offer Ariannol**

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n achosi ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Nid oes gan Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol Cymru unrhyw offer ariannol cymhleth o dan y disgrifiad a roddir yn IAS 32. Y prif offer ariannol yw symiau sy'n daladwy a symiau sy'n dderbyniadwy. Ystyrir y rhain i fod yn fenthyciadau a derbyniadwyon yn unol ag IAS 39. Felly datgelir hwynt yn y cyfrifon ar gost wedi'i hamorteiddio.

1.15 **Darpariaethau**

Symiau yw'r rhain sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymadau. Lle mae effaith gwerth amser yr arian yn sylweddol, caiff y llif arian amcangyfrifedig (wedi'i addasu ar gyfer risg) ei ddisgowntio ar sail cyfradd ddisgownt gymeradwy Trysorlys EM.

1.16 **Adrodd ar Segmentau**

Ni chredir fod unrhyw segmentau gweithredol y dylid eu hadrodd ar wahân yn unol ag IFRS 8; fodd bynnag mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi dewis datgelu'n ychwanegol y gwariant sy'n gysylltiedig â phedwar amcan allweddol y swydd. Dyluniwyd y dulliau dyrannu cost a ddefnyddir i roi'r adlewyrchiad gorau o'r gost o redeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sail y dyrannu yw amcangyfrif o'r amser a dreuliwyd ar amcanion y swyddfa gan y staff, ac eithrio'r gwariant y gellir codi tâl uniongyrchol amdano. Nid yw'r wybodaeth yma'n cael ei hadrodd yn fewnol.

2. Cysoni Adnoddau i'r Gofyniad Arian Parod Net

	Nodyn	2011-12 Amcangyfrif diwygiedig	2011-12 Cyfanswm alldro net	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif diwygiedig o'r arbediad / (arian dros ben)	2010-11 Alldro Diwygiedig
		£000	£000	£000	£000
Datganiad Alldro Adnoddau Net o'r Gwariant Net Cynhwysfawr			3737		3871
Llai Gwasanaethau a rennir gyda Chronfa Gyfunol Cymru	4		(188)		(187)
Gofyniad Adnoddau Net		5404	3549	1855	3684
Gofyniad Cyfalaf Net	7/8	15	13	2	461
Symudiad mewn darpariaethau	12	(1565)	(8)	(1557)	36
Costau cyfalaf	4	(148)	(122)	(26)	(110)
Symudiadau mewn dyledwyr / credydwyr	13	25	(2)	27	34
Ariannu pensiynau	3	-	210	(210)	-
<i>Gofyniad Arian Parod Net Crynodeb o'r Alldro Adnoddau</i>		3731	3640	91	4105

3. Costau a Nifer y Staff

Roedd y costau cyflogaeth cyfun fel a ganlyn:

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Staff parhaol:		
Cyflogau	1850	1854
Costau nawdd cymdeithasol	136	134
Costau pensiwn eraill	368	366
Cyfanswm	2354	2354
Staff dros dro	11	27
Costau nawdd cymdeithasol	1	1
Costau pensiwn	1	3
Cyfanswm	13	31
Cyfanswm y costau cyflogaeth	2367	2385

Mae costau'r staff dros dro yn cynnwys staff asiantaeth ynghyd ag unrhyw un a gyflogir ar gontract nad yw'n barhaol. Nid yw'r costau cyflogau a nodir uchod yn dangos costau cyflogaeth, a chostau cysylltiedig, yr Ombwdsmon. Rhoddir y rheswm am y gwahaniaeth yn yr Adroddiad Taliadau (gweler tudalen 12).

Dyma'r nifer gyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn:

	2011-12	2010-11
	Nifer	Nifer
Uwch reolwyr	2	3
Ymchwilio i gwynion	42	42
Staff Gweithredol / Gwasanaethau Corfforaethol	9	8
Cyfanswm	53	53

Mae'r uchod yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r lleihad yn nifer yr uwch reolwyr oherwydd bod un cyfarwyddwr rhan amser wedi ymddiswyddo ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cynnydd i bob golwg yn nifer y staff gweithredol / gwasanaethau corfforaethol wedi digwydd oherwydd cyfannu - nid oes newid staff wedi bod.

I bwrpas cymhariaeth, dyma gyfanswm y costau cyflogaeth, gan gynnwys yr Ombwdsmon:

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Ombwdsmon	188	187
Swyddfa	2367	2385
Cyfanswm	2555	2572

Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu rhedeg ar ran y staff presennol. O brisio un o'r cynlluniau hyn, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cyfrifodd yr actiwari fod y diffyg ar 31 Mawrth 2012 yn £690k. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau yn yr economi ar ffurf enillion is ar asedau ac enillion cyfraddau llog is.

Mae rhwymedigaeth o hyd i dalu pensiynau'r tri Ombwdsmon blaenorol neu unrhyw berthnasau dibynnol.

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O'r 30 Gorffennaf 2007 ymlaen, gall aelodau o'r cynllun pensiwn fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **glasurol a mwy**); neu gynllun gyrfa gyfan (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau cyllido'n cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei chwrrdd gan gyllid a bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **nuvos, clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen naill ai ddewis y trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn cael eu pennu ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun **clasurol**, a 3.5% ar gyfer y cynlluniau **premiwm, clasurol a mwy a nuvos**. Daw'r cynnydd yng nghyfraniadau'r staff i rym o'r 1 Ebrill 2012. Mae buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd pan fydd y person yn ymddeol. Ar gyfer y cynllun **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r un **clasurol**, nid oes cyfandaliad yn cael ei dalu'n awtomatig. Yn ei hanfod, cynllun hybrid yw **clasurol a mwy**, gyda'r buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel gyda'r cynllun **clasurol** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel gyda'r cynllun **premiwm**. Gyda'r cynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni ei bensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy dros gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno, a chyfradd y pensiwn cronnus yn cael ei chodi'n unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Gyllid 2004.

Cynllun pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5%, gan ddibynnu ar oed yr aelod, i mewn i gynllun pensiwn rhanddeiliaid wedi'i ddewis gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle mae gweithwyr yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol o hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy a hynny ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail salwch).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn ar ôl cyrraedd oed ymddeol, neu'n syth ar ôl iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu os ydynt dros oed ymddeol. Yr oed pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynlluniau **clasurol**, **premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau o **nuvos**.

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond nid yw Ombwdsmao Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Gwerthusodd Actiwari'r cynllun y cynllun hwn ar 31 Mawrth 2007. O'r 1 Ebrill 2012 ymlaen, penodwyd Actiwari newydd ar gyfer y Cynllun. Rhoddir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2011-12, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £321k (2010-11: £333k) i'r Prif Gynllun ar sail un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o'r cyflog pensiynadwy, yn ôl bandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr pob pedair blynedd fel arfer ar ôl priso'r cynllun yn llawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion a gronnwyd yn 2011-12 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd dros y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth neu bensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £6k (2010-11 £6k) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn oed-gysylltiedig ac yn amrywio rhwng 3% a 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy. Hefyd, talodd y cyflogwr gyfraniad o £449 (2010-11 £457), 0.8% o'r cyflog pensiynadwy, i'r Prif Gynllun i dalu am gyfandaliadau yn y dyfodol os bydd y gweithwyr hyn yn marw mewn gwasanaeth ac yn ymddeol oherwydd salwch.

Ni wnaed rhagdaliadau ac nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

(b) Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â rhwymedigaethau a ariannir gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y 'Gronfa') sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Oherwydd natur wedi'i ariannu'r Cynllun Llywodraeth Leol rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'i weithwyr sy'n aelodau o'r cynllun, dalu cyfraniadau i'r Gronfa a chyfrifir y rhain ar lefel gyda'r nod o gydbwysu'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddiadau.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n cydnabod enillion a cholledion yn llawn, ar unwaith drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Adroddiadau Ariannol, mae'n ofynnol datgelu gwybodaeth benodol am asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant yng nghyswllt cynlluniau pensiwn.

Datgelu o dan IAS 19 (buddion wedi'u hariannu'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol)

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf o rwymedigaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2010. Amcangyfrifwyd y rhwymedigaethau gan yr actiwari annibynnol ar sail actiwaraid yn defnyddio'r dull o amcan-gredydu unedau. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid annibynnol, AON Hewitt, wrth gyflawni'r prisiad diweddaraf o'r Gronfa i bwrpas IAS 19 oedd:

Y prif dybiaethau ariannol (% y flwyddyn)

	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2011	31 Mawrth 2010
Cyfradd ddisgownt	4.7	5.5	5.5
Chwyddiant RPI	3.4	3.6	3.9
Chwyddiant CPI	2.4	2.7	Amherthnasol
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu*	2.4	2.7	3.9
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig*	2.4	2.7	3.9
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau**	4.4	4.6	5.4

* Mwy na'r cynnydd lleiaf a warantir mewn pensiynau sy'n cael eu talu, lle bo hynny'n briodol

** Yn ogystal, mae'r actiwari wedi lwfa ar gyfer yr un graddfeydd cyflog oed-gysylltiedig ag a ddefnyddiwyd yn y prisiad actiwaraidd o'r Cronfeydd ar 31 Mawrth 2010.

Tybiaethau ynghylch marwolaethau

Mae'r tybiaethau ynghylch marwolaethau'n seiliedig ar brofiad gwirioneddol diweddar o farwolaeth aelodau o fewn y Gronfa ac yn lwfa ar gyfer lefel farwolaeth well yn y dyfodol.

Marwolaethau cyn marw (ymddeol mewn iechyd normal)	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2011
<u>Dynion</u> Tabl sylfaenol Blynnydoedd Geni	Iechyd Normal SAPS Safonol – Symiau Ysgafn	Iechyd Normal SAPS Safonol – Holl Symiau
Sgorio i'r tabl sylfaenol uchod* (blynnydoedd)	0	0
Graddio i'r cyfraddau tabl sylfaenol uchod	100%	100%
Gwelliannau i'r cyfraddau tabl sylfaenol	CMI_2009 gyda chyfradd wella hirdymor o 1.25% y flwyddyn	CMI_2009 gyda chyfradd wella hirdymor o 1.25% y flwyddyn
Blynnydoedd i fyw ar ôl 65 oed (65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu)	23.9	23.8
Blynnydoedd i fyw ar ôl 65 (45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu)	25.6	25.6
<u>Merched</u> Tabl sylfaenol Blynnydoedd Geni	Iechyd Normal SAPS Safonol – Holl Symiau	Iechyd Normal SAPS Safonol – Holl Symiau
Sgôr i'r tabl sylfaenol uchod* (blynnydoedd)	0	0
Graddio i'r cyfraddau tabl sylfaenol uchod	80%	80%
Gwelliannau i'r cyfraddau tabl sylfaenol	CMI_2009 gyda chyfradd wella hirdymor o 1.25% y flwyddyn	CMI_2009 gyda chyfradd wella hirdymor o 1.25% y flwyddyn
Blynnydoedd i fyw ar ôl 65 (65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu)	26.7	26.6
Blynnydoedd i fyw ar ôl 65 (45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu)	28.7	28.6

* Mae sgôr o x o flynydoedd yn tybio bod aelodau o'r Gronfa'n dilyn patrwm marwolaeth y tabl sylfaenol am x o flynydoedd yn hŷn na nhw. Mae'r sgoriau a ddangosir yn berthnasol i ymddeol mewn iechyd normal.

	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2011
Cymudo	Tybir bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn cyn 1 Ebrill 2010, ar gyfer cyfandaliad ychwanegol.	Tybir bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn am wasanaeth blaenorol ar ymddeol, ar gyfer cyfandaliad ychwanegol.
	Tybir bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2010, ar gyfer cyfandaliad ychwanegol.	Tybir bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliau pensiwn am wasanaeth yn y dyfodol ar ymddeol, ar gyfer cyfandaliad ychwanegol.

Enillion disgwylidig ar asedau

Dangosir, yn fras, y rhaniad asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (ar sail data wedi'i gyflenwi gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa) yn y tabl isod. Hefyd, dangosir y cyfraddau enillion tybiedig a fabwysiedir gan y cyflogwr i bwrpas IAS 19.

	Cyfradd enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2012*	Amcan o'r rhaniad asedau ar 31 Mawrth 2012	Cyfradd enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2011*	Rhaniad asedau ar 31 Mawrth 2011	Cyfradd enillion disgwylidig hirdymor ar 31 Mawrth 2010*	Rhaniad asedau ar 31 Mawrth 2010
	% y flwyddyn	%	% y flwyddyn	%	% y flwyddyn	%
Soddgyfrannau	8.1	72.1	8.4	74.7	8.0	73.5
Eiddo	7.6	6.3	7.9	4.2	8.5	4.1
Bondiau'r Llywodraeth	3.1	7.7	4.4	4.9	4.5	4.9
Bondiau Corfforaethol	3.7	8.8	5.1	11.2	5.5	12.5
Arian parod	1.8	1.3	1.5	1.1	0.7	0.9
Arall**	8.1	3.8	8.4	3.9	8.0	4.1
Cyfanswm	7.2	100.0	7.7	100.0	7.5	100.0

* Mae'r gyfradd enillion ddisgwylidig gyffredinol ar asedau Cronfa'n gyfartaledd pwysedig o'r cyfraddau enillion disgwylidig unigol ar bob dosbarth asedau, ac wedi'i dangos yn rhes waelod y tabl uchod.

** Mae daliadau eraill yn cynnwys cronfeydd rhagfantoli (hedge), daliadau arian cyfred, dyfodolion dyrannu asedau ac eraill. Mae AON Hewitt wedi tybio y bydd y rhain yn creu enillion tebyg i soddgyfrannau.

Disgrifiad naratif o'r sail a ddefnyddiwyd i benderfynu'r enillion disgwylidig

Mae AON Hewitt, ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio 'dull adeiladu' i benderfynu'r gyfradd enillion ar asedau Cronfeydd. Astudir marchnadoedd hanesyddol a thybir bod asedau sy'n fwy cyfnewidiol yn creu enillion uwch yn gyson ag egwyddorion arferol y farchnad gyfalaf. Mae'r gyfradd enillion dybiedig ar bob dosbarth asedau wedi'i gosod allan yn y nodyn hwn. Yna mae'r gyfradd enillion ddisgwylidig gyffredinol ar asedau'n cael ei benderfynu drwy gyfuno'r enillion disgwylidig ar gyfer pob dosbarth asedau dros y dyraniad asedau gwirioneddol am y Gronfa ar 31 Mawrth 2012.

Cysoni'r statws wedi'i ariannu â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

	Gwerth ar 31 Mawrth 2012	Gwerth ar 31 Mawrth 2011	Gwerth ar 31 Mawrth 2010
	£M	£M	£M
Gwerth teg yr asedau	4.09	3.97	4.06
Gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig a ariennir	4.78	4.31	4.91
Ased / (rhwymedigaeth) pensiwn cyn ystyried paragraff 58	(0.69)	(0.34)	(0.85)
Addasiad paragraff 58	0.00	(0.07)	0.00
Asedau / (rhwymedigaeth) pensiwn sy'n cael ei gydnabod ar y fantolen	(0.69)	(0.41)	(0.85)

Newidiadau i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011
	£M	£M
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.03	0.04
Cost flaenorol y gwasanaeth	0.00	(0.54)
Cost llog	0.23	0.24
Enillion disgwylidig ar asedau	(0.30)	(0.29)
Cost cwtogi	0.00	0.00
Cost setliad	0.00	0.00
Traul wedi'i gydnabod	(0.04)	(0.55)

Newidiadau i werth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig dros y cyfnod cyfrifyddu

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011
	£M	£M
Ymrwymiad buddion diffiniedig agoriadol	4.31	4.91
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.03	0.04
Cost llog	0.23	0.24
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.01	0.01
Colledion / (enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau *	0.35	(0.08)
Buddion net a dalwyd #	(0.15)	(0.27)
Cost flaenorol y gwasanaeth	0.00	(0.54)
Cyfuniadau busnes	0.00	0.00
Cwtogi	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Ymrwymiad buddion diffiniedig wrth gau	4.78	4.31

* Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actiwaraidd.

Yn cynnwys llif arian parod net allan o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliad marw mewn gwasanaeth a dalwyd, ac yn cynnwys lwfa'n fras ar gyfer y gost ddisgwyliedig o dalu cyfandaliadau marw mewn gwasanaeth.

Newidiadau i werth teg asedau dros y cyfnod cyfrifyddu

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011
	£M	£M
Gwerth teg agoriadol yr asedau	3.97	4.06
Enillion disgwyliedig ar asedau	0.30	0.29
Enillion / (colledion) actiwaraidd ar asedau	(0.21)	(0.15)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.17	0.03
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.01	0.01
Buddion net a dalwyd #	(0.15)	(0.27)
Cyfuniadau busnes	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
Gwerth teg yr asedau wrth gau	4.09	3.97

Yn cynnwys llif arian parod net allan o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliad marw mewn gwasanaeth a dalwyd, ac yn cynnwys lwfa'n fras ar gyfer y gost ddisgwyliedig o dalu cyfandaliadau marw mewn gwasanaeth.

Enillion gwirioneddol ar asedau

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011
	£M	£M
Enillion disgwylidig ar asedau	0.30	0.29
Enillion / (colledion) actiwaraidd ar asedau	(0.21)	(0.15)
Enillion gwirioneddol ar asedau	0.09	0.14

Dadansoddiad o'r symiau wedi eu cydnabod mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011
	£M	£M
Cyfanswm enillion / (colledion) actiwaraidd	(0.56)	(0.07)
Addasiad paragraff 58	0.00	(0.07)
Cyfanswm enillion / (colledion)	(0.56)	(0.14)

Hanes y gwerthoedd asedau, gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig a'r gwarged / diffyg

	Ar 31 Mawrth				
	2012	2011	2010	2009	2008
	£M	£M	£M	£M	£M
Gwerth teg yr asedau	4.09	3.97	4.06	3.10	4.41
Gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig	4.78	4.31	4.91	3.67	4.12
Gwarged / (Diffyg)	(0.69)	(0.34)	(0.85)	(0.57)	0.29

Hanes yr enillion a'r colledion a brofwyd

	Ar 31 Mawrth				
	2012	2011	2010	2009	2008
	£M	£M	£M	£M	£M
Yr enillion / (colledion) a brofwyd ar asedau					
▪ Swm £M	(0.21)	(0.15)	0.86	(1.00)	(0.44)
▪ Canran o'r asedau	-5.1%	-3.8%	21.2%	-32.3%	-10.0%
Yr enillion / (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau #					
▪ Swm £M	(0.05)	0.09	0.06	(0.02)	(0.02)
▪ Canran o werth presennol y rhwymedigaethau	-1.0%	2.1%	1.2%	-0.5%	-0.5%

Mae'r eitem hon yn cynnwys enillion / (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau'n unig ac nid unrhyw newid mewn rhwymedigaethau oherwydd newidiadau i dybiaethau'r actiwaraid.

Cyfraniadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd y cyflogwr i'r gronfa am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 yn £0.27M. Yn ogystal, efallai y bydd angen Cyfraniadau Straen ar y Gronfa.

Terfynu'r cynllun

Mae'r wybodaeth bensiwn uchod yn cydymffurfio â gofynion IAS 19. Ar 31 Mawrth 2012 roedd yn dangos diffyg o £690k yn y gronfa bensiwn. Mae trefniadau yn eu lle gyda'r Gronfa Bensiwn i wneud taliadau graddol i ateb y rhwymedigaeth ariannol fydd yn codi pan na fydd unrhyw aelodau'n cyfrannu mwyach; ar hyn o bryd tybir mai yn 2017-18 fydd hyn. Mae sail cyfrifo'r rhwymedigaeth honno'n wahanol i'r sail a ddefnyddir o dan IAS 19 oherwydd mae angen sicrhau, o'r dyddiad cau, bod yr holl ymrwymadau wedi'u cwrdd oherwydd ar ôl hynny bydd unrhyw rwymedigaeth ariannol i'r dyfodol yn disgyn ar y Gronfa Bensiwn. Adolygir yr amcangyfrif o'r rhwymedigaeth wrth gau wrth adolygu'r cynllun pob tair blynedd oni bai fod y cynllun yn cau. Pan brisiwyd y cynllun y tro diwethaf, yr amcangyfrif oedd bod y rhwymedigaeth wrth gau yn £1.6 miliwn. O dan weithdrefnau'r Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunedig gan Drysorlys EM, caniateir inni lwfa ar gyfer darpariaeth ariannol i gwrdd â'r rhwymedigaeth.

Cynyddu Pensiynau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn y datganiad ar Gyllideb y DU ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r Llywodraeth, o'r 1 Ebrill 2011 ymlaen, yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i fynegio prisiau budd-daliadau a chredydau treth; ac y byddai hyn hefyd yn berthnasol i pensiynau gwasanaethau cyhoeddus drwy'r cyswllt statudol â mynegeo Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Oherwydd bod adolygiad barnwrol wedi cadarnhau y gellir defnyddio'r CPI i gynyddu pensiynau, mae'r ffigurau sy'n adlewyrchu'r newid hwn fel a welir yn y ffigurau am 2010/11 yn sefyll.

(c) Pensiynau i gyn Ombwdsmyrn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991 ac fel y cadarnhawyd wedyn gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth y Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri cyn Gomisiynydd Llywodraeth Leol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chaiff y rhain eu cwrdd drwy'r Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus; mae sail cyfrifo'r Cynnydd Blynyddol mewn Pensiynau wedi newid o ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae maint y codiad wedi'i osod allan yn Offeryn Statudol 2012 Rhif 782. Eleni roedd y cynnydd o 5.2% yn weithredol o'r 9 Ebrill 2012 ymlaen. Yn 2010-11 roedd y codiad yn 3.1%.

Cyfanswm y taliadau yn 2011-12 oedd £77k (£75k yn 2010-11). Cyfrifwyd y rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i ariannu'r pensiynau hyn ynghyd â phensiynau unrhyw ddibynyddion i fod yn £487k (2010-11 £506k). Mae'r cyfrifiad i benderfynu maint yr ymrwymiad cyffredinol wedi'i gyflawni'n fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliad oes ar gyfer dynion a merched yng Nghymru,

data a gafwyd o wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae cyfradd ddisgownt o 2.8% (2.9% 2010-11) wedi'i chymhwyso'n unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid disgowntio'r holl rwymedigaethau pensiwn. Rhoddir mwy o fanylion o dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 12).

4. Costau Gweinyddol Eraill (Nid Staff)

	2011-12		2010-11	
	£000		£000	
Rhenti o dan brydlesi gweithredol	234		218	
Ffioedd Archwilio - allanol	19		25	
Gwasanaethau eraill wedi eu darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton	-		1	
Cynghorwyr Proffesiynol	281		312	
Costau eiddo eraill	110		107	
Gwasanaethau cyfrifiadurol	132		200	
Costau swyddfa	118		147	
Teithio a Chynhaliaeth	26		28	
Hyfforddiant a Recriwtio	40		67	
Cyfathrebu	98		80	
Gwasanaethau sefydlog y gronfa gyfunol (Costau cyflogau a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a delir o Gronfa Gyfunol Cymru)	188		187	
Is-gyfanswm		1246		1372
Dibrisiad	77		89	
Tâl amorteiddio	45		50	
Colled ar ôl gwaredu	-		11	
Swm i ailaddurno'r swyddfeydd yn y dyfodol	2		1	
Is-gyfanswm		124		151
Cyfanswm Costau Gweinyddol Eraill		1370		1523

5. Incwm Gweithredol

Daeth y derbyniadwyon incwm o fuddsoddi cyllid dros ben (gwarged) dros dymor byr ac o secondio ymchwilydd dros dro.

	2011-12		2010-11	
	£000		£000	
Staff wedi eu secondio		-		37
Llog a dderbyniwyd		-		-
Cyfanswm incwm gweithredol		-		37

6. Costau Gweithredol ar Nodau ac Amcanion

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

Mae'r gost o ddarparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru wedi ei nodi isod. Dyma sut ddyrannwyd y costau i bob un o'r amcanion:

- (a) Amcangyfrif o'r amser a dreuliodd y staff ar yr amcan
- (b) Gwariant a ddyranwyd yn uniongyrchol
- (c) Costau eraill a ddosranwyd, pro rata i'r amser staff

	2011-12			2010-11		
	Crynswth	Incwm	Net	Crynswth	Incwm	Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth fel bod pobl yn deall yr hyn a wnawn, a bod pawb sydd angen y gwasanaeth yn cael mynediad ato a'i ddefnyddio	260		260	271		271
Bod gennym brosesau trin cwynion o ansawdd uchel yn eu lle, sy'n ein galluogi i ystyried a phenderfynu cwynion yn drylwyr ond yn gymesur, a chyfleu penderfyniadau'n glir	2768		2768	2878	(37)	2841
Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru fel y darperir gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell o ganlyniad i'r gwersi a ddysgir o'r cwynion a ymchwiliwn iddynt	550		550	576		576
Dangos ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac effeithiol	159		159	183		183
Costau gweithredol net	3737	-	3737	3908	(37)	3871

7. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Peiriannau	Cyfrifiaduron a chyfarpar eraill	Dodrefn a ffitiadau eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2011	156	170	294	620
Ychwanegiadau	-	3	2	5
Ar 31 Mawrth 2012	156	173	296	625
Dibrisiad				
Ar 1 Ebrill 2011	(78)	(116)	(160)	(354)
Tâl am y flwyddyn	(24)	(15)	(38)	(77)
Ar 31 Mawrth 2012	(102)	(131)	(198)	(431)
NBV ar 31 Mawrth 2012	54	42	98	194
NBV ar 31 Mawrth 2011	78	54	134	266

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes unrhyw wahaniaeth mawr rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd cyfredol a'u cost hanesyddol.

8. Asedau Anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth	Trwyddedau Meddalwedd	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost / Prisiad ar 1 Ebrill 2011	472	61	533
Ychwanegiadau	-	8	8
Ar 31 Mawrth 2012	472	69	541
Amorteiddio ar 1 Ebrill 2011	(212)	(59)	(271)
Amorteiddio dros y cyfnod	(40)	(5)	(45)
Ar 31 Mawrth 2012	(252)	(64)	(316)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2012	220	5	225
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2011	260	2	262

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes unrhyw wahaniaeth mawr rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd cyfredol a'u cost hanesyddol.

9. Derbyniadwyon Masnachol ac Eraill

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Rhagdaliadau	197	147
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Rhagdaliadau	6	52
Cyfanswm	203	199

10. Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falans arian parod sydd ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae credydwr am £91k (2010-11 llai na £1k) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon sef y balans net ar ddiwedd y flwyddyn ar bob un o'r cyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru p'un ai yw'r cyfrif unigol mewn debyd neu gredyd gyda'r grant sy'n dod i law'n cael ei wrthbwyso gan yr ad-daliad hwn. Byddai'r ad-daliad hwn wedi'i wneud i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 os oedd yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

11. Taladwyon Masnachol a Rhwymedigaethau Cyfredol Eraill

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi	-	-
Gwyliau blynyddol heb eu cymryd	63	57
Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol	3	3
Cronfa Gyfunol Cymru - balansau heb eu gwario	91	0
incwm anweithredol	0	0
Taladwyon masnachol	24	13
Croniadau	17	28
	198	101
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Lleihad rhent wedi'i ohirio	25	25
Cyfanswm	223	126

12. Darpariaethau ar Gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

	2011-12			2010-11
	Pensiynau i Gyn Gomisiynwyr	Costau Ailaddurno yn y dyfodol	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	506	1	507	543
Darpariaeth ychwanegol sydd ei hangen	81	2	83	26
Symudiad yn y gyfradd ddisgownt	2	-	2	13
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(77)	-	(77)	(75)
Balans	512	3	515	507

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig talu darpariaethau:

	£000	£000
Yn daladwy o fewn blwyddyn	78	73
Yn daladwy o fewn 2 – 5 mlynedd	311	276
Yn daladwy ar ôl mwy na 5 mlynedd	126	158
Balans ar 31 Mawrth 2012	515	507

Mae angen y ddarpariaeth ychwanegol i gwrdd â'r cynnydd mewn pensiynau'n unol ag Offeryn Statudol 2012 Rhif 782 a'r cynnydd mewn disgwylid oes ar sail Tablau Oes Interim Cymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae cynnydd mewn pensiynau nes ymlaen yn y flwyddyn yn unol â gwybodaeth ddatcwyddiant GDP a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i ddiwygio i 2.8% am y flwyddyn ariannol (2.9% 2010-11) yn unol â chanllawiau gan y Trysorlys.

Mae'r costau ailaddurno i'r dyfodol yn codi o ymrwymiad i ailaddurno'r tu mewn i'r swyddfa brydles yn Bocam Park. Mae symiau'n cael eu neilltuo i dalu am y rhwymedigaeth i ailaddurno'r swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2014-15. Mae swm o £1500 wedi'i ddarparu ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 (2010-11 £1500) tuag at gost y gwaith hwn.

13. Cysoni Costau Gweithredol i'r Llifau Arian Parod Gweithredol

	Nodiadau	2011-12	2010-11
		£000	£000
Costau gweithredol net		(3737)	(3871)
Addasu ar gyfer eitem heb fod yn arian parod	3,4	82	110
Lleihad / (Cynnydd) yn y derbyniadwyon masnachol ac eraill	9	(4)	(28)
Lleihad / (Cynnydd) yn y taladwyon masnachol ac eraill	11	97	(6)
Taliad i gwrdd â'r diffyg yn y gronfa bensiwn		(170)	-
Defnydd o ddarpariaethau	12	8	(36)
Gwasanaethau a rennir gyda Chronfa Gyfunol Cymru	4	188	187
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol		(3536)	(3644)

14. Gwariant ar Asedau Anghyfredol a Buddsoddiadau Ariannol

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	(5)	(163)
Elw o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	-	-
Prynu asedau anniriaethol	(8)	(298)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	(13)	(461)

15. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod net â'r Cynnydd / (Lleihad) Mewn Arian Parod

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Gofyniad Arian Parod Net:		
Gweithgareddau Gweithredol	(3536)	(3644)
Cyfanswm y Gwariant	(13)	(461)
	(3549)	(4105)
Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	3731	4100
Ad-daliad i Gronfa Gyfunol Cymru	(91)	(-)
Cynnydd mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	91	(5)

16. Ymrwymïadau o Dan Brydlesi Gweithredol

	2011-12	2010-11
	£000	£000
Cyfanswm y taliadau (lleiafswm) yn y dyfodol ar brydlesi gweithredol ar Adeiladu		
Yn daladwy o fewn blwyddyn	183	183
O fewn 2 – 5 mlynedd	339	522
Mwy na phum mlynedd	-	-
	522	705
Arall		
Yn daladwy o fewn blwyddyn	6	7
O fewn 2 – 5 mlynedd	-	3
Mwy na phum mlynedd	-	-
	6	10

17. Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Ar 31 Mawrth 2012 nid oedd unrhyw Rwymedigaethau Wrth Gefn (2010-11 Dim).

18. Ymrwymïadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2012 (2010-11 Dim).

19. Offer Ariannol

Oherwydd natur gan fwyaf anfasnachol ei weithgareddau a'r ffordd y cyllidir cyrff y llywodraeth, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n agored i'r un risg ariannol a wynebïr gan rai cyrff busnes. Nid oes gan y swyddfa unrhyw bwerau i gael benthyg arian ond gall fuddsoddi arian dros ben dros dro. Cynhyrchïr asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu beunyddiol ac ni ystyrïr eu bod yn newid y risgiau sy'n wynebu'r swyddfa wrth gyflawni ei weithgareddau.

20. Trafodion partïon Cysylltiedig

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n ben ar y swydd a chafodd ei sefydlu o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol o'r Llywodraeth ac mae'r trefniadau cyllido ar gyfer y swydd wedi eu sefydlu i sicrhau bod annibyniaeth y swydd yn parhau. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion pwysig gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a swydd yr Ombwdsmon Seneddol. Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon wedi cael nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrrff eraill y llywodraeth ganolog.

Yn weithredol o fis Ebrill 2010 ymlaen, penodwyd Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn gadeirydd ar Gymdeithas Ombwdsmon Prydain ac Iwerddon a bu'n gwasanaethu yn y capasiti hwn tan fis Mai 2012. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn aelod o'r Gymdeithas hon.

21. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Ar 3 Mai 2012 gwnaed dyfarniad cymeradwy mewn achos adolygiad barnwrol yng nghyswllt mater Cod Ymddygiad lle'r oeddwn yn un o'r partïon budd. Roedd yr hawlydd wedi herio penderfyniad gan Banel Dyfarnu Cymru a gwnaeth y Cwnsler gyflwyniadau ar fy rhan o blaid cynnal y penderfyniad. Dyfarnodd y barnwr y dylid derbyn cais yr hawlydd a chafodd benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ei roi heibio. Cefais fy ngorchymyn i dalu costau'r hawlydd. Hyd yma ni fu'n bosibl penderfynu'r swm sydd angen ei dalu. Os na ellir cytuno ar y costau, gan olygu achos asesu manwl, gallai'r mater gario drosodd i flwyddyn ariannol 2013-14.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150

Ffacs: 01656 641199

E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon